

# Dysgu yn y gwaith

Mae darparwyr yn rhoi ffocws cryf ar gefnogi **lles** ac iechyd meddwl dysgwyr trwy eu darpariaeth **gofal, cymorth ac arweiniad**.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae llawer o ddysgwyr yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac, er bod ychydig ohonynt yn bryderus am ddychwelyd, mae presenoldeb yn gyffredinol uchel yn y gweithle a'r canolfannau hyfforddiant.
- Mae aseswyr yn rhoi cymorth parhaus gwerthfawr i ddysgwyr ar gyfer eu dysgu a'u lles.
- Cryfhaodd llawer o ddarparwyr eu gweithdrefnau i olrhain cynnydd a lles dysgwyr, er enghraifft trwy ddatblygu cofrestr dysgwyr mewn perygl. Mae'r cofrestrau hyn yn galluogi staff i gadw mewn cysylltiad rheolaidd â dysgwyr arbennig o fregus a chynnig lefelau uchel o gymorth personol.

## Beth sydd angen ei wella

- Mae lles dysgwyr yn ffocws allweddol i staff o hyd, yn enwedig o ran helpu dysgwyr i wella eu gwydnwch a chynorthwyo nifer gynyddol y dysgwyr sy'n gwneud datgeliadau lles.



Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgysylltu'n dda ac yn gwneud cynnydd priodol yn eu gwaith ymarferol a theori, er bod niferoedd uchel o ddysgwyr yn cymryd yn hwy na'r disgwyl i gwblhau eu rhaglenni o hyd. Mae ansawdd **hyfforddiant ac asesu** yn gyffredinol gadarn ac mae llawer o ddarparwyr wedi parhau i ddarparu **dysgu** o bell.

## Cryfderau

- Ers dychwelyd i'w gweithleoedd a gweithgarwch wyneb-yn-wyneb i ffwrdd o'r gwaith yn llawn ym mis Medi 2021, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgysylltu'n arbennig o dda â'u gweithgareddau ymarferol a theori ac yn gwneud cynnydd priodol, o leiaf; mae ychydig ohonynt yn gwneud cynnydd cryf.
- Mae darparwyr yn parhau i ddatblygu'r gwaith o ddarparu dysgu o bell, gan adeiladu'n dda ar eu profiadau o ddefnyddio e-portffolios.
- Mae darparwyr yn cynnig ystod eang o raglenni ar lefelau gwahanol i fodloni anghenion cyflogwyr a dysgwyr.
- Mae nifer fawr o ddysgwyr newydd wedi'u recriwtio ar y rhan fwyaf o raglenni prentisiaeth.

## Meysydd i'w datblygu

- Mae nifer y dysgwyr ar raglenni y tu hwnt i'r dyddiad gorffen disgwyliedig yn uchel o hyd, yn enwedig yn y sectorau iechyd a gofal. Mae hyn am ystod o resymau, a'r un mwyaf cyffredin yw'r mynediad cyfyngedig a fu gan aseswyr i weithleoedd dysgwyr.
- Bu'r sector iechyd a gofal dan bwysau sylweddol yn ystod y pandemig ac ar ei ôl, sydd wedi arwain at gyfraddau ymadael uchel a chynnydd a chyflawniad arafach ymhlith dysgwyr.
- Nid yw'r sail resymegol ar gyfer defnyddio dysgu o bell yn glir bob tro. Nid yw darparwyr yn diffinio'r rhesymau pam y caiff unedau, modiwlau neu weithgareddau eraill eu darparu o bell bob tro.



Mae **arweinwyr** yn y darparwyr prentisiaethau newydd wedi sefydlu perthynas waith diffiniedig ag isgontractwyr a phartneriaid yn gyflym. Trwy adeiladu ar waith yn ystod y pandemig, cryfhaodd uwch arweinwyr eu cyfathrebu a rhoi ffocws cryf ar gefnogi dysgu proffesiynol.

## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae arweinwyr wedi cryfhau a gwella eu cyfathrebu â'r holl staff a phartneriaid allweddol.
- Mae arweinwyr yn rhoi ffocws cryf ar gynorthwyo eu staff i ddatblygu eu medrau digidol i helpu dysgwyr i gynnal eu hymgysylltiad a gwneud cynnydd.
- Yn ystod blwyddyn gyntaf y contract, mae perthnasoedd gwaith ag isgontractwyr wedi'u diffinio'n dda ac yn sefydlogi.

## Beth sydd angen ei wella

- Mae darparwyr yn parhau â llawer o agweddau ar eu prosesau sicrhau ansawdd. Mae arweinwyr wedi gweld y trefniadau asesu a hyfforddi ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a thechnegol yn arbennig o gymhleth ac mae hyn wedi cyfyngu ar ba mor dda roeddent yn gallu adolygu effeithiolrwydd addysgu, hyfforddi ac asesu.